# Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022

**2022 dsc 1**

**RHAN 7**

AMRYWIOL A CHYFFREDINOL

*Cyffredinol*

**143 Rheoliadau**

(1) Mae pŵer i wneud rheoliadau o dan y Ddeddf hon i’w arfer drwy offeryn statudol.

(2) Mae pŵer i wneud rheoliadau o dan y Ddeddf hon yn cynnwys pŵer i wneud—

(a) darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol neu ar gyfer ardaloedd gwahanol;

(b) darpariaeth gysylltiedig, darpariaeth atodol, darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth ddarfodol, darpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed.

(3) Ni chaniateir gwneud offeryn statudol y mae’r is-adran hon yn gymwys iddo oni bai bod drafft o’r offeryn wedi ei osod gerbron Senedd Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad.

(4) Mae is-adran (3) yn gymwys i offeryn statudol sy’n cynnwys rheoliadau o dan unrhyw un neu ragor o’r darpariaethau a ganlyn—

(a) o Ran 1, adran 22(1);

(b) o Ran 2, adrannau 25(2), 27(6), 32(2)(b), 34, 41(2), 46(6), 80(1)(c) a (2) a 83(4);

(c) o Ran 3, adrannau 88(3), 94(4) a (7)(b), 98(2), 99(6), 104(5) a 105(4);

(d) o Ran 4, adrannau 111(4), 112(1)(c) a 113(1);

(e) o’r Rhan hon—

(i) adran 145;

(ii) adran 146, ond dim ond pan fo’r rheoliadau yn diwygio, yn diddymu neu fel arall yn addasu darpariaeth mewn Deddf gan Senedd y

**Statws** *This is the original version (as it was originally enacted).*

Deyrnas Unedig, Mesur gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru neu Ddeddf gan Senedd Cymru.

(5) Mae offeryn statudol sy'n cynnwys rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan y Ddeddf hon, nad yw is-adran (4) yn gymwys iddo, yn ddarostyngedig i'w ddiddymu yn unol â phenderfyniad gan Senedd Cymru.